**Pwyllgor Materion Ewropeaidd EUR01-99(min)**

**COFNODION**

**Dyddiad:** Dydd Iau 1 Gorffennaf 1999

**Amser:** 9.00am

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgor 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Presennol:**

Alun Michael, Cadeirydd (Llafur: Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Mick Bates (Ryddfrydwyr Democrataidd: Sir Drefaldwyn)

Val Feld (Llafur: Dwyrain Abertawe)

William Graham (Ceidwadwyr: Dwyrain De Cymru)

Christine Gwyther (Llafur: Gorllewin a De Caerfyrddin)

Elin Jones (Plaid Cymru: Ceredigion)

Rhodri Morgan (Llafur: Gorllewin Caerdydd)

Alun Pugh (Llafur: Gorllewin Clwyd)

Rod Richards (Ceidwadwyr: Gogledd Cymru)

Rhodri Glyn Thomas (Plaid Cymru: Caerfyrddin a Dwyrain Dinefwr)

Phil Williams (Plaid Cymru: Dwyrain De Cymru)

**Swyddogion**

Andrew George (Clerc y Pwyllgor)

Stephen Thomas (Dirprwy Glerc y Pwyllgor)

Hugh Rawlings (Pennaeth, Adran Materion Ewropeaidd)

**Datganiadau o Ddiddordeb:** Dim

**Eitem 1 ar yr Agenda: Sylwadau Agoriadol y Cadeirydd**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor a dywedodd mai hwn oedd y cyfarfod pwyllgor cyntaf i'w gynnal ers trosglwyddo pwerau i'r Cynulliad Cenedlaethol. Amlinellodd ei weledigaeth o swyddogaeth strategol gyffredinol y Pwyllgor a fyddai'n cefnogi a chryfhau gwaith y pwyllgorau pwnc.

1.2 Gofynnwyd i bob aelod o'r Pwyllgor roi amlinelliad o'u cefndir, profiad a'u diddordeb o ran Ewrop. Mewn ymateb, cydnabu'r Cadeirydd y cyfoeth o wybodaeth a phrofiad oedd gan yr Aelodau gyda'i gilydd a gobeithiai y byddai'r Pwyllgor yn darparu cyfle iddynt arddangos eu talentau'n llawn.

**Eitem 2 ar yr Agenda : Gweithrediad y Pwyllgor ar Faterion Ewropeaidd**

**Papurau:** EUR-01-99(tud.1) ac EUR-01-99 (tud.2)

2.1 Gwahoddwyd y Pwyllgor i roi sylwadau ar bapurau EUR-01-99(tud.1) ac EUR-01-99 (tud.2) a oedd yn rhoi crynodeb o argymhellion y Grðp Strategaeth Ewropeaidd ac yn mynegi rhai cynigion o'r Gadair ynghylch dull gweithredu'r Pwyllgor.

2.2 O ystyried pwysigrwydd y dimensiwn Ewropeaidd yn holl fusnes y Cynulliad, cadarnhaodd y Cadeirydd mai ef oedd Ysgrifennydd y Cynulliad gyda'r cyfrifoldeb cyffredinol am faterion Ewropeaidd. Gobeithiai y byddai ei Gadeiryddiaeth yn caniatáu i farn gyffredinol y Pwyllgor ddylanwadu ar ffordd o feddwl y Cabinet ynghylch y nifer o faterion yr oedd materion Ewropeaidd yn berthnasol iddynt.

2.3 Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch cynrychiolaeth y Cynulliad Cenedlaethol yng Nghyngor y Gweinidogion, cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai'n bosibl i Ysgrifennydd o'r Cynulliad fynychu fel rhan o ddirprwyaeth y DU. Byddai hyn yn cael ei gynnwys yn y concordat gyda Llywodraeth y DU ar ddelio â busnes Ewropeaidd. Gofynnodd i'r Clerc gomisiynu papur ar gyfer y cyfarfod nesaf i egluro swyddogaeth UKREP.

2.4 Gofynnwyd i'r Cadeirydd hefyd ynghylch y cynnydd ar sefydlu'r Cyngor yr Ynysoedd arfaethedig. Atebodd fod y paratoadau wedi cael eu gohirio nes gweithredu cytundeb heddwch Gwener y Groglith yng Ngogledd Iwerddon. Roedd wedi siarad â Gweinyddiaeth Dramor

Gweriniaeth Iwerddon ar wahanol adegau, yn ogystal â chynrychiolaeth o bleidiau Cynulliad Gogledd Iwerddon a Phen Gweinidog Senedd yr Alban a Chydweithwyr Gweinidogol. Gwelwyd ewyllys da aruthrol ar y mater o gydweithio rhwng rhanbarthau.

2.5 Holwyd cwestiynau ynghylch cyfraniad y Cynulliad i'r broses o benderfynu ar bolisi Ewropeaidd a'r angen i'r Cynulliad gael y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch datblygiadau yn Ewrop. Atebodd y Cadeirydd y byddai'r concordatiau a gaiff eu llunio rhwng y Cynulliad ac adrannau'r Llywodraeth yn fodd o ddylanwadu ar ddatblygiad polisi. Gwelai'r Cynulliad hefyd yn cyfrannu tuag at bolisi Ewropeaidd trwy UKREP, Canolfan Ewropeaidd Cymru a'r pum ASE oedd yn cynrychioli Cymru.

2.6 Yng ngoleuni'r drafodaeth hon, cytunwyd y dylai'r Clerc gynhyrchu rhaglen ddrafft dros gyfnod o 12 mis i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau roi gwybod i'r Clerc am unrhyw faterion y byddent yn hoffi'u gweld yn cael eu cynnwys ynddi. Roedd sylwadau a wnaed yn y cyfarfod yn cynnwys:

- bod angen i'r Pwyllgor gofio'r goblygiadau posibl ar adnoddau yn sgil argymhellion y Grðþ Strategaeth Ewropeaidd wrth benderfynu ar flaenoriaethau;
- dylid gofyn i bob pwyllgor pwnc ystyried dimensiwn Ewropeaidd eu gwaith ac asesu a chlustnodi'u blaenoriaethau o ran Ewrop;
- dylai staff y Cynulliad gael eu hyfforddi ar faterion Ewropeaidd fel eu bod yn deall y dogfennau sy'n deillio o Ewrop yn well;
- dylid gwahodd swyddogion o Ganolfan Ewropeaidd Cymru i fynychu (neu gyflwyno tystiolaeth) pan fyddai'r Pwyllgor yn trafod y berthynas rhwng y Cynulliad a'r Ganolfan; a
- dylai'r pwyllgor ystyried y ffordd orau i ddatblygu cysylltiadau gyda'r pedwar Rhanbarth Modur.

**Eitem 3 ar yr Agenda : Sefydlu Fforwm Cymreig ar Faterion Ewropeaidd**

**Papur:** EUR-01-99 (tud.3)

3.1 Gwahoddwyd y Pwyllgor gan y Cadeirydd i roi sylwadau ar y cynnig i sefydlu Fforwm Cymreig ar Faterion Ewropeaidd a fyddai'n galluogi'r rhai fyddai'n cymryd rhan i dderbyn a chyfnewid gwybodaeth ar faterion Ewropeaidd.

3.2 Codwyd y pwyntiau canlynol wrth drafod:

- dylai'r Fforwm fod o natur archwiliol a rhyngweithiol a chael y cyfle i ddatblygu dros gyfnod o amser;
- dylai ddechrau'i waith gyda chynhadledd – i gynnwys sesiwn lawn a grwpiau gwaith a fyddai'n darparu amrywiaeth o gyfleoedd i rannu gwybodaeth; a
- dylai'r rhai sy'n cymryd rhan gynnwys pobl sy'n gweithio ar lefel leol yng Nghymru,

cynrychiolwyr busnes (gan gynnwys amaethyddiaeth) ac Aelodau Seneddol.

3.3 Cytunodd y Pwyllgor ar y "dull cynhadledd" ar gyfer y Fforwm a gofynnodd i drefniadau gael eu rhoi ar waith i'w gynnal ym mis Medi neu fis Hydref. Gofynnodd y Cadeirydd i'r aelodau gyfrannu syniadau ar gyfer y Fforwm i'r swyddogion trwy'r Clerc.

**Materion Eraill**

4.1 Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa bod Comisiynydd y CE, Syr Leon Brittan yn ymweld â'r Cynulliad ar 8 Gorffennaf a bod gwahoddiad i aelodau fynychu cyfarfod anffurfiol gydag ef.

4.2 Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu cyfraniadau adeiladol a gobeithiodd y byddai'r dull hwn o weithio yn parhau yng nghyfarfodydd y dyfodol.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Gorffennaf 1999**